# LLOYD, JOHN (1885 - 1964), ysgolfeistr, awdur a hanesydd lleol

**Enw:** John Lloyd
**Dyddiad geni:** 1885
**Dyddiad marw:** 1964
**Priod:** Nancy Lloyd (née Roden)
**Rhiant:** Catrin Lloyd (née Jones)
**Rhiant:** Evan Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ysgolfeistr, awdur a hanesydd lleol
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Arwyn Lloyd Hughes

Ganwyd 11 Gorffennaf 1885 yn Nhy Gwyn y Gamlas, Ynys, Talsarnau, Meirionnydd, yn seithfed plentyn i Evan Lloyd, ffermwr, a'i wraig Catrin (ganwyd Jones). Addysgwyd ef yn ysgol fwrdd Talsarnau; ysgol ganolradd Abermo; ysgol ramadeg Wigan (am flwyddyn yn unig) a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth (B.A., 1906 gydag anrhydedd yn yr ail ddosbarth yn y Gymraeg; M.A., 1911). Bu'n athro yn ei hen ysgol yn Abermo dan Edmund D. Jones, 1907-19 ac yn ysgol sir Tregaron, 1919-20. Yn 1920 apwyntiwyd ef yn athro yn ysgol ramadeg Dolgellau ac yn brifathro yn 1925, swydd a ddaliodd hyd nes iddo ymddeol ym mis Awst 1946.

Cofir amdano fel cyd-gyfieithydd gyda T. P. Ellis o *The Mabinogion* (1929) mewn dwy gyfrol. Dyma'r ail gyfieithiad cyflawn o'r Mabinogion i ymddangos yn Saesneg er ymgais y Fonesig Charlotte Guest yn 1834-49. Cafodd eu cyfieithiad adolygiad beirniadol ar y pryd gan ysgolheigion fel W. J. Gruffydd a J. Lloyd-Jones ond serch hynny arhosodd yn waith defnyddiol nes i gyfieithiad newydd ymddangos yn 1948 gan Gwyn a Thomas Jones . Cyhoeddodd hefyd ddau werslyfr i ysgolion yn dwyn y teitlau: *Detholiad o draethodau llenyddol Dr. Lewis Edwards* (1910) a *Llyfr darllen ac ysgrifennu* (1913; arobryn yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, 1912), yn ogystal â gwerslyfr at wasanaeth yr ysgol Sul, *Yr Eglwys apostolaidd: Cenhadon cyntaf Crist* (1922). Golygodd nifer o argraffiadau o *The official guide to the Deudraeth Rural District*. Yr oedd ganddo ddiddordeb arbennig mewn hanes lleol a chyfrannodd rhwng 1949-58 nifer o erthyglau ar ei hoff Ardudwy i *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionydd*. Cyfrannodd hefyd i'r *Bywgraffiadur Cymreig 1941-50*. Darlithiodd lawer i ddosbarthiadau lleol y W.E.A. ac yn achlysurol, ar ôl iddo ymddeol, yng Ngholeg Harlech. Yr oedd yn brifathro ymroddedig ac yn ymchwiliwr manwl ym mhopeth yr ymgymerodd ag ef. Gwasanaethodd hefyd ar nifer dda o wahanol bwyllgorau a chyrff diwylliannol ym Meirionnydd megis y pwyllgor addysg, pwyllgor Eisteddfod Meirion a phwyllgor y sir Urdd Gobaith Cymru. Yr oedd ymhlith sylfaenwyr Cymdeithas Hanes a Chofnodion y sir yn 1939 a gwnaed ef yn islywydd. Bu'n flaenor gyda'r MC yn olynol yn Nhalsarnau, Dolgellau a Llanbedr. Priododd 1925 â Nancy Roden, Aberystwyth, a ganed un ferch iddynt. Bu farw yn Nolgellau, 17 Ionawr 1964, a chladdwyd ef ym mynwent eglwys S. Mihangel, Llanfihangel-y-traethau.

## Awdur

**Arwyn Lloyd Hughes**

## Ffynonellau


Gwybodaeth gan ei weddw ac aelodau o'i deulu

*Y Cymmrodor.*, 40 (1929), 251-64

*Western Mail*, 20, 24 Mehefin 1929

Z/M/655/8-9 yn Swyddfa Cofysgrifau Meirionnydd

*The Liverpool Daily Post*, 20 Ionawr 1964

*The Cambrian News and Merionethshire Standard*, 24 Ionawr 1964

*Y Dydd*, 24 Ionawr 1964

*Taliesin*, 31 (1975), 75-85


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 180578953

Wikidata: Q20821167

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu